**Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Defnyddwyr Harbwr ABERAERON a gynhaliwyd o bell trwy gynhadledd fideo ar nos Iau, 24 Hydref 2024**

**Yn cynrychioli Cyngor Sir Ceredigion:** Y Cynghorydd Keith Henson (Cadeirydd) Y Cynghorwyr Elizabeth Evans, Matthew Vaux

**Swyddogion a oedd yn Bresennol:** Rhodri Llwyd, Owen Morgan, Katy Spain a Dana Jones

**Defnyddwyr yr Harbwr**: Julian Driver, Jonathan Price Jones, David Nicholson, Carl Rich, Chris Seal, Martin Seal, Owen Stephen Webb, NJ Robertson, Kevin Sandover, Martin Wood

(5.40pm – 6.30pm)

1. **Ymddiheuriadau**
Dim.

2. **Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2023**
CYTUNWYD peidio cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2023 yn gywir gan bod Jonathan Price Jones wedi nodi nad oedd ei gwestiwn ef wedi cael ei gynnwys yn y cofnodion.

**Materion yn Codi**
Cofnod 3 – Gwnaethpwyd ymholiad ynghylch a fyddai'r starbord grwyn yn cael ei oleuo, wrth ymateb i Reolwr yr Harbwr a ddywedodd bod hyn yn gywir. Mynegwyd pryderon hefyd am y golau ar grwyn y gogledd gan berchnogion cychod lleol a oedd yn dychwelyd i'r harbwr yng nghanol y nos. Gan ymateb, dywedodd Rheolwr yr Harbwr ei fod wedi cael trafodaethau gyda Thŷ Trinity, a'u bod nhw yn hapus gyda'r trefniadau a gynigir. Derbynnir bod heriau wrth farcio'r ardal o ganlyniad i dopograffeg yr ardal a'r ffaith ei bod yn agored i'r amodau cyffredinol.

Adroddwyd gan un o ddefnyddwyr yr harbwr y bu dryswch llwyr ar ddechrau'r tymor gan bod dau gwch wedi glanio ar y creigiau oherwydd diffyg marciau, ac y dylid fod wedi lleoli'r pyst yn gywir ar y dechrau. Nodwyd y sylwadau gan Reolwr yr Harbwr; fodd bynnag, cadarnhawyd y cyhoeddwyd Hysbysiad Lleol i Forwr am yr ardal adeg y digwyddiad.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Trafnidiaeth yr ymgynghorwyd â Thŷ Trinity am y lleoliadau hyn a bod BAM, fel y contractwr, yn gyfrifol am y safle gwaith yn ystod y gwaith adeiladu. Cadarnhawyd y byddai trafodaethau pellach yn cael eu cynnal gyda Thŷ Trinity i gadarnhau y byddai'r gwaith marcio yn ei le ar ôl cwblhau'r gwaith ar yr amddiffynfeydd môr, a byddai marciau parhaol yn ofynnol.

3. **Diweddariad am Wasanaethau Harbwr**
Rhoddwyd diweddariad gan Reolwr yr Harbwr, fel y cyflwynwyd yng nghylchlythyr Dyfroedd Tawel. Codwyd y materion canlynol:-

- Yn ychwanegol i sawl defnyddiwr harbwr arall, ategodd y Cynghorydd Elizabeth Evans eu pryderon eto ynghylch cychod yn cael eu lansio'n ddyddiol i'r harbwr heb dalu neu heb fod yn meddu ar yswiriant priodol. Adroddwyd, gan nad yw gwasanaeth Clic ar gael dros y penwythnos, byddai modd i berchnogion cychod dalu am lansio yn ystod y dydd neu am eu hangorfeydd ymwelwyr trwy system dalu ar-lein ar wefan CS Ceredigion cyn bo hir, sydd wedi cael ei datblygu yn ddiweddar. Byddai modd i ddefnyddwyr droi at hon ar eu ffonau symudol trwy'r wefan neu yn swyddfa'r Harbwr, lle y byddai modd cael cymorth gan aelod o Dîm y Gwasanaethau Harbwr yn ôl yr angen, ar gyfrifiadur y swyddfa. Nodwyd hefyd y bu cyfnodau estynedig o absenoldebau oherwydd salwch ymhlith y staff dros yr haf. Dywedodd Rheolwr yr Harbwr bod y rota wedi cael ei newid er mwyn sicrhau bod staff ar gael yn Aberaeron dros benwythnosau yn dilyn cyfarfod cymhorthfa harbwr a gynhaliwyd yn ystod tymor yr haf. Dywedodd Cynghorydd Elizabeth Evans y byddai hi'n codi'r mater eto yn ystod y broses o osod y gyllideb ar gyfer 2025/26. Dywedodd y CLO, Priffyrdd a'r Amgylchedd, ei bod wedi cael ei chyhoeddi mai dymuniad y Cyngor oedd y byddai'r harbwr yn cael ei redeg ar sail niwtral o ran y gost, ac roedd pob ffynhonnell incwm yn cael ei hystyried er mwyn cyflawni hyn.

  Holodd defnyddwyr harbwr eraill a fyddai modd talu gydag arian parod, neu beiriant cerdyn. Gan ymateb, adroddodd y swyddogion na fyddai arian parod yn cael ei dderbyn oherwydd diogelwch ac ati. Mewn perthynas â'r peiriant cerdyn, roedd y gwasanaeth cyllid wedi hysbysu'r swyddogion, o ganlyniad i'r defnydd cymharol gyfyngedig a fyddai'n debygol o gael ei wneud ohono, a fyddai'n cael ei gyfyngu i dymor yr haf, na fyddai defnyddio peiriant cerdyn i dalu yn ddewis cost-effeithiol. Nodwyd y byddai'r system dalu yn cael ei hadolygu ar ôl yr haf nesaf.

  Cafwyd trafodaeth ynghylch y ffaith na chynhelir archwiliad o drefniadau yswiriant y rhai sy'n lansio am y dydd. Yn unol â Pholisi Rheoli yr Harbwr, adroddwyd bod holl ddefnyddwyr yr harbwr yn llofnodi datganiad, a bod gofyn i'r holl rai sy'n lansio a'r holl ymwelwyr ddarparu tystiolaeth a chopïau o'u hyswiriant. Pe bai hawliad yn codi rhwng dau barti, byddai hwn yn fater trydydd parti preifat rhwng y partïon dan sylw a'u darparwyr yswiriant. Dywedodd y CLO y gallai defnyddiwr ganslo eu hyswiriant y diwrnod ar ôl cyflwyno eu dogfennau yswiriant i Awdurdod yr Harbwr, a dywedodd bod swyddogion yn gweithredu mewn ffordd resymol; ac na fyddai modd iddynt gynnig sicrwydd bod gan berchnogion cychod yswiriant am 365 diwrnod y flwyddyn, ac y byddai angen i berchnogion cychod gymryd rhywfaint o gyfrifoldeb yn hynny o beth.

  Awgrymodd defnyddwyr yr harbwr hefyd y byddai modd defnyddio gât bar cloi a fyddai'n cynnwys cod er mwyn delio â'r mater hwn, ac y byddai modd talu ar-lein gan ddefnyddio cod a anfonir i ddefnyddwyr mewn neges e-bost er mwyn cael mynediad i'r llithrfa, fodd bynnag, gallai defnyddwyr rannu'r cod a hefyd, byddai angen ystyried mynediad i'r



DRAFT

gwasanaethau brys. Awgrymwyd hefyd y byddai modd i Gynorthwyydd Harbwr Tymhorol fod yn y swyddfa yn ystod cyfnodau penllanw, a allai leihau ffioedd defnyddwyr yr harbwr yn gyffredinol trwy gyflogi llai o staff. Roedd eraill o'r farn bod cod QR yn ffordd ddigonol o dalu, fodd bynnag, nodwyd y bu problem gyda sticeri twyllodrus yn cael eu rhoi dros y rhai gwreiddiol a'r taliad yn cael ei anfon at gwmni/unigolyn anhysbys. Byddai Rheolwr yr Harbwr/Gwasanaeth yn ystyried yr awgrymiadau hyn.

4. **Rhestr Aros am Angorfeydd wedi'i Golygu**

Cytunwyd nodi'r rhestr aros am angorfeydd fel y'i cyflwynwyd a bod yr angorfeydd ar y rhestr yn rhai hanesyddol. Nodwyd bod amrywiadau yn y niferoedd ar y rhestrau aros am bob harbwr, a bod ffactorau sy'n dylanwadu ar fanteisio ar angorfeydd yn wahanol i bob harbwr, gan gynnwys y gwaith sy'n parhau yn Aberaeron ac effaith afon Aeron ar rai angorfeydd sydd ar gael.

**5. Cynnal a Chadw Cyffredinol a Glendid**

- Adroddodd Rheolwr yr Harbwr bod yr harbwr wedi bod yn lân ac yn daclus yn ystod y tymor, a bod y Cynorthwyydd Harbwr Tymhorol yn casglu sbwriel fel rhan o'u dyletswyddau erbyn hyn. Mae sawl ysgol a chadwyn angori yn cyrraedd diwedd eu hoes; felly, mae'r gwaith allan i dendr ar hyn o bryd trwy'r gwasanaeth caffael.

- **Codwyd y mater canlynol ynghylch Ceinewydd:-**
  Adroddodd un defnyddiwr harbwr bod cyfleuster rheoli gwastraff yn cael ei danddefnyddio yng Ngheinewydd gan nad yw defnyddwyr yr harbwr yn ymwybodol o'r gwasanaeth; a dywedodd y dylid ei hysbysebu, ac awgrymwyd y dylid gwneud hynny ar boster ar y ffordd i lawr i'r cyfleuster. Dywedodd Rheolwr yr Harbwr er bod y mater hwn yn un penodol i Harbwr Ceinewydd, bod y Cynllun newydd gychwyn a'i fod eisoes yn cael ei hysbysebu'n dda yng nghylchlythyr Dyfroedd Tawel, ar ddrysau pob cyfleuster, ar wefan y Cyngor Sir ac fe'i trafodwyd yn ystod y cyfarfod hwn ac yn ystod cyfarfodydd blaenorol. Fodd bynnag, nodwyd pe bai'r cyfleuster yn cael ei ddefnyddio yn fwy, y dylai defnyddwyr gofio y byddai'n costio mwy i'r Cyngor, ac i ddefnyddwyr o ganlyniad, i gontractwyr waredu'r gwastraff.

**6. Materion a godwyd gan Ddefnyddwyr yr Harbwr**

Gofynnwyd am wybodaeth am yr holl wasanaethau niwtral o ran eu cost gan y Cyngor Sir. Adroddodd y CLO y byddai'n gofyn am y wybodaeth hon gan y gwasanaeth cyllid ac yn ei dosbarthu i ddefnyddwyr ar ôl ei chael.

Dywedodd y Cynghorydd Elizabeth Evans ei bod hi wedi gofyn am arwyddion mynediad yn unig ar y llithrfa/dim ffordd trwyddo ar y mynediad o'r prif faes parcio i'r llithrfa. Gofynnwyd am hyn ar ôl i ddrych adain daro dolen pram.



DRAFT